

Atodiad B

BILI Cwm Taf

Cynllun Gwella

Arolygiad Glanweithdra Amgylcheddol Dirybudd AGIC Dydd Mercher 24 Mawrth 2010

Arolygiad Glanweithdra Amgylcheddol Dirybudd ar Ward 6 yr Uned Feddygol Acíwt a Ward 19 Anadolol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau a'r rhodfeydd cyhoeddus.

Cydymffurfir yn dda iawn â'r drefn ar gyfer glanhau comodau a defnyddio tâp verna-care yn yr Uned Feddygol Acíwt.

Roedd gan staff Ward 19 wybodaeth dda am reoli heintiau yn gyffredinol. Gwelwyd bod arferion hylendid dwylo yn dderbyniol a bod gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo a phryd y dylent wisgo menig.

Roedd yr adborth llafar yn cynnwys y ffaith fod yr holl aelodau staff a gyfwelwyd yn hynod o gwrtais a pharod i helpu.

Ward 6 yr Uned Feddygol Acíwt

	Maes i'w Wella	Camau Gweithredu Cwm Taf	Swyddog Arweiniol sy'n Gyfrifol	Monitro a Dyddiad Cwblhau
	<u>Amgylchedd</u>			
1.	<i>Cafwyd hyd i gynwysyddion storio â llwch i'w weld yn amlwg arnynt, ac roedd rhai yn cael eu cadw ar y llawr.</i>	Glanhau cynwysyddion storio. Aildrefnu'r stoc a gweithredu prosiect Wardiau Trefnus y rhaglen Trawsnewid Gofal ar gyfer yr Uned. Ailgyllunio amserlenni glanhau newydd ar gyfer y ward gan enwi nyrsys i fod yn gyfrifol am ystafelloedd allweddol ar y ward. Adolygu protocol cyfrifoldebau glanhau BILI Cwm Taf dyddiedig Mai 2010 (sefydlwyd y protocol gwreiddiol ym mis Chwefror 2009).	Prif Nyrs J Prif Nyrs J/RT Prif Nyrs J RH/ Uwch Nyrsys	25 Mawrth 10 1 Mehefin 10 1 Ebrill 10 1 Mai 10
2.	<i>Seddau i gleifion ac ymwelwyr wedi rhwygo'n wael.</i>	Cwblhawyd archwiliad o seddau cleifion, ystolion a seddau ymwelwyr ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl ym mis Rhagfyr 2009. Cwblhawyd treialon ar y seddau yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2010. Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2010.	Uwch Nyrsys Uwch Nyrsys a rhanddeiliaid allweddol Uwch Nyrs	Rhagfyr 2009 Ion Chwef 10

		Y Pwyllgor Gwaddol i ystyried rhaglen i brynu seddau newydd ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl – cost o £8,000 ar gyfartaledd fesul ward. Cyflwyno safon ar gyfer glanhau ac archwilio seddau/ystolion cleifion/ymwelwyr o'r rhaglen Trawsnewid Gofal.	Cyfarwyddwr Nyrsio RT/prif nyrsys ward/prif nyrsys	Ebrill 10 1 Mehefin 10 1 Mehefin 10
3.	<i>Eitemau glân yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron</i>	Symud yr eitemau glân o'r ystafell eitemau budron. Rhoi gwybod i'r staff mewn cyfarfodydd tîm pa eitemau na ddylid eu cadw yn yr ystafell eitemau budron. Uwch Nyrsys a phrif nyrsys ward i gynnal archwiliadau ar hap. Amserlenni glanhau i gynnwys y mater hwn.	Prif Nyrs J Prif Nyrs J Uwch Nyrsys Prif Nyrsys y ward	24 Mawrth 10 25 Mawrth 10 Parhaus 1 Mai 10
4.	<i>Eitemau megis dalwyr poteli wrinal wedi'u gosod o amgylch y sinc golchi dwylo glinigol.</i>	Symud yr eitemau ar unwaith a'u cadw'n briodol wrth ymyl gwelyau'r cleifion.	Prif Nyrs J	24 Mawrth 10
5.	<i>Eitemau amhriodol yn cael eu cadw yn yr ystafell ddomestig - bwyd ac eiddo personol.</i>	Symud yr eitemau ar unwaith. Cwblhau archwiliadau ym mis Mai a Mehefin o'r holl ystafelloedd cadw tŷ er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau o ran cadw eitemau personol.	Prif Nyrs J	24 Mawrth 10
6.	<i>Canfuwyd bod y comedau ar y ward i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio ac y defnyddir y tâp gwyrdd. Mae gofyn llofnodi a rhoi'r dyddiad ar y tâp.</i>	Mae "Safon Glanhau Comodau" y rhaglen Trawsnewid Gofal yn cael ei chyflwyno trwy'r holl wardiau meddygol a llawfeddygol. Atgoffa'r staff i lofnodi a rhoi'r dyddiad ar y tâp verna-care gwyrdd. Archwiliadau amgylcheddol i gynnwys asesiad o safonau glanweithdra comedau.	BT Prif Nyrsys RH/Uwch Nyrsys	1 Mehefin 10 1 Mehefin 10 1 Mai 10
7.	<i>Nid oes cypyrddau bach ar gael i gleifion gadw eitemau personol ynddynt.</i>	Prynu blychau storio i'r cleifion gadw eu heiddo ynddynt yn ystod eu cyfnod byr yn yr Uned Feddygol Aciwt. Gwerthuso a monitro pa mor effeithiol yw'r blychau.	Prif Nyrs J Tîm yr Uned Feddygol Aciwt	1 Mehefin 10 Awst 10
8.	<i>Cilfachau rhyw cymysg yn yr Uned Feddygol Aciwt</i>	Y rheolwyr gwelyau ac uwch staff y ward yn yr Uned i barhau i geisio sicrhau mai cleifion o un rhyw sydd ym mhob cilfach.	Rheolwyr Gwelyau/Tîm yr Uned Feddygol Aciwt	Parhaus

		Gwneud gwaith dilynol ag AGIC i nodi Unedau Meddygol Acíwt yn y DU sy'n llwyddo i gyflawni'r safon hon. Cynllunio ymweliad a meincnodi er mwyn newid ymarfer a chydymffurfio â'r arfer gorau hwn.	CB CJ	1 Mehefin 10 1 Gorffennaf 10
9.	<i>Bwlch rhwng y gwelyau yn y cilfachau – ddim yn cydymffurfio ag argymhellion cenedlaethol.</i>	Tîm ystadau i adolygu'r bwlch rhwng y gwelyau yn yr Uned Feddygol Acíwt a'r wardiau cyffredinol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.	Mr AH	5 Mai 10
10.	<i>Llenni hyd tri chwarter yn darparu fawr ddim preifatrwydd ac urddas i gleifion.</i>	Dyfnbrisiau fesul ward ar gyfer prynu llenni newydd. Cynhaliwyd cyfarfod ar 5 Mai gyda chwmni cynhyrchu llenni i wneud mesuriadau cywir ar gyfer prynu nifer o setiau o lenni. Oddeutu 6 wythnos yw'r amserlen ar gyfer eu cyflenwi.	RH RH	5 Mai 10 1 Awst 10
11.	<i>Cypyrddau cyffuriau yn yr ystafelloedd clinigol heb eu cloi.</i>	Atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod pob cwpwrdd sy'n cynnwys meddyginiaethau neu sylweddau peryglus dan glo bob amser. Prif nyrs y ward, arweinwyr y tîm y tu allan i oriau arferol ac uwch nyrsys i fonitro. Cynnal archwiliadau ar hap ym mis Mai 2010.	Prif Nyrs J Prif Nyrs J a'r tîm y tu allan i oriau arferol CE	24 Mawrth 10 Parhaus Cyn diwedd mis Mai 10
	<u>Trin a gwaredu dillad gwely a llieiniau, gwastraff ac eitemau miniog</u>			
1.	<i>Biniau ar y ward yn rhydlyd a'r peintwaith wedi'i ddifrodi arnynt.</i>	Datblygu rhaglen i gael biniau newydd trwy Ysbyty Brenhinol Morgannwg i gyd. Nodi unrhyw finiau rhydlyd yn ystod archwiliadau, cael gwared arnynt a chael rhai newydd yn eu lle. Cynnal ail archwiliad o'r holl finiau yn yr Ysbyty ym mis Mai 2010.	RH CM, LR, RK	O 1 Mai 10 ac yn barhaus O 1 Mai 10 ac yn barhaus Cyn diwedd mis Mai 2010
2.	<i>Troli dillad gwely a llieiniau budron wedi'i leoli nesaf at y troli dillad</i>	Prif nyrsys y ward i atgoffa'r staff o'r safonau y dylid cydymffurfio â hwy o ran cadw dillad gwely a llieiniau budron ar wahân i'r rhai glân, a chael gwared â'r rhai	Prif Nyrsys	1 Mai ac yn barhaus

	<i>gwely a llieiniau glân.</i>	budron yn y man priodol. Dylai'r troli dillad gwely a llieiniau budron fod yn wag bob amser, gyda sach lân ynddo, yn barod i'w ddefnyddio.		
3.	<i>Ystafell benodedig ar y ward ar gyfer dillad gwely a llieiniau - eitemau'n cael eu cadw ar y llawr, a nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddi.</i>	Symud eitemau amhriodol oddi ar y llawr a'u cadw yn y man cywir. Gwasanaethau cadw tŷ a phrif nyrsys y ward i weithio gyda'i gilydd i wella'r gwasanaethau dillad gwely a llieiniau, gan reoli a chadw stoc yn briodol.	LR, RK, CM Prif Nyrsys, tîm cadw tŷ	25 Mawrth Parhaus 1 Gorffennaf 10
	<u>Cyfarpar a storfeydd</u>			
1.	<i>Canfuwyd bod y cyfarpar ar y ward yn llychlyd yn gyffredinol. Dylid sefydlu system lanhau gofnodedig ar draws y sefydliad sy'n ei gwneud yn eglur pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a phryd.</i>	Glanhau'r eitemau a nodwyd ar unwaith. Prif nyrsys y ward wedi ailgynllunio cyfres newydd o amserlenni glanhau er mwyn dynodi swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer aelodau staff penodol. Neilltuo ystafelloedd a chyfarpar ar gyfer yr aelodau staff a ddynodwyd. Symud cyfarpar o'r wardiau i lyfrgell gyfarpar benodedig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg yr wythnos yn cychwyn 13 Mai 2010. Comisiynir llyfrgell gyfarpar Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod mis Gorffennaf /Awst 2010. Bydd cyfarpar nad oes mo'i angen o ddydd i ddydd yn cael ei lanhau a'i labelu, a rhoddir y dyddiad arno, cyn ei drosglwyddo i'w gadw yn y llyfrgell gyfarpar ganolog.	Prif Nyrs J Prif Nyrs J Prif Nyrsys Prif Nyrsys Prif Nyrsys	25 Mawrth 10 27 Mawrth 10 13 Mai 10 1 Awst 10 Parhaus
2.	<i>Roedd y troli meddyginiaeth i'w weld yn fudr.</i>	Glanhau silff y troli ar unwaith. Sicrhau bod amserlen lanhau'r ward yn cynnwys glanhau'r troli meddyginiaeth. Sicrhau bod amserlenni glanhau'r ward yn cynnwys asesu glanweithdra'r troli meddyginiaeth.	Prif Nyrs J Prif Nyrs J Uwch Nyrsys	24 Mawrth 10 27 Mawrth 10 Parhaus

3.	<i>Powlenni ymolchi cleifion yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron</i>	Rhaid cadw holl bowlenni ymolchi'r cleifion wrth ymyl gwelyau'r cleifion, gan eu glanhau ar ôl eu defnyddio bob tro a chyn i'r claf nesaf ddod i ddefnyddio'r gwely. Os bydd unrhyw bowlenni dros ben ar y ward, rhaid eu cadw mewn cwpwrdd mewn ystafell eitemau glân.	Prif Nyrs J Prif Nyrs J	24 Mawrth 10 1 Ebrill 10
4.	<i>Gwelwyd matres â staeniau arni</i>	<p>Roedd y staff wedi condemnio'r fatres y cyfeiriwyd ati yn adroddiad AGIC, a disgwyliid iddi gael ei symud oddi ar y ward.</p> <p>Roedd Archwiliad Matresi eisoes wedi'i gynllunio ar gyfer 29 a 30 Ebrill fel rhan o grŵp Gwella Gofal Wardiau Meddygol a Llawfeddygol yr Ymgyrch 1000 o Fywydau. Datblygu rhaglen i gyflenwi matresi newydd yn dilyn yr archwiliad matresi.</p> <p>Trefnwyd i HL Healthcare gynnal archwiliad allanol i asesu gwelyau a chyfarpar yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl ym mis Mehefin 2010. Adroddiad i'r Is-adrannau / Tîm Gweithredol.</p>	<p>Prif Nyrs J</p> <p> KB SR Uwch Nyrsys</p> <p> KB SR</p>	<p>25 Mawrth</p> <p> 29 Ebrill 10 30 Ebrill 10 1 Mehefin 10</p> <p> 1 Awst 10</p>
5.	<i>Nid oedd y staff i gyd wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylid cwblhau hyn bob blwyddyn, a dylai gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.</i>	<p>Tîm yr Uned Feddygol Acíwt i dderbyn hyfforddiant parhaus ar y ward gan y Tîm Rheoli Heintiau. Parhau i ddefnyddio'r ffeiliau adnoddau Achosion o Haint.</p> <p>Arbrofi gyda diwrnodau diweddar hyfforddiant Gorfodol/Statudol a chynnwys hyfforddiant ar Reoli Heintiau.</p> <p>Grwpiau Atal a Rheoli Heintiau'r Gyfarwyddiaeth i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r hyfforddiant a'r cynlluniau. Parhau i roi cefnogaeth i'r staff i'w galluogi i fynychu sesiynau astudio Rheoli Heintiau (Lefel 2, staff y ward – diweddariad 1 awr unwaith bob 2 flynedd; sefydlwyd hyfforddiant Lefel 3 ar gyfer prif nyrsys y ward, sesiwn 2 awr).</p> <p>Defnyddio'r dangosfwrdd nyrsio newydd i fonitro a rhoi gwybod pwy sy'n cwblhau a chydymffurfio â hyfforddiant rheoli heintiau.</p>	<p>Tîm Atal a Rheoli Heintiau</p> <p> Prif Nyrsys Prif Nyrsys/Tîm Corfforaethol /Darren Gill Uwch Nyrsys</p> <p> Prif Nyrsys</p> <p> Uwch Nyrsys, Prif Nyrsys</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Mehefin 10 Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p> 1 Gorffennaf 10</p>

6.	<p><i>Gwelwyd bod arferion hylendid dwylo yn annerbyniol gan nad oedd aelodau'r staff bob amser yn dadhalogi eu dwylo ar ôl tynnu eu menig. Dylai'r holl staff gael hyfforddiant ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo, pryd i ddefnyddio gel a phryd i ddefnyddio menig.</i></p>	<p>Rhodddwyd adborth i'r aelod staff (nyrs gronfa) ar ôl ymweliad AGIC. Cynlluniwyd i'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau roi hyfforddiant gloywi ym maes hylendid dwylo i holl staff yr Uned ym mis Mai 2010. Rhoi gwybod i'r Uwch Nyrs am ganlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo a sicrhau bod y canlyniadau'n rhan o'r dangosfwrdd nyrsio o ddangosyddion perfformiad allweddol.</p>	<p>Prif Nyrs J Tîm Atal a Rheoli Heintiau Prif Nyrsys</p>	<p>26 Mawrth 10 Mai 10 1 Gorffennaf 10</p>
7.	<p><i>Roedd archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal ar y ward dair gwaith yr wythnos. Dylid cynnal archwiliadau hylendid dwylo bob wythnos; dylai aelodau'r staff gymryd rhan yn y rhain a chael eu hysbysu am y canlyniadau fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir yn brydlon.</i></p>	<p>Roedd Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau Cwm Taf, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2010, yn cefnogi'r syniad o gynnal archwiliadau hylendid dwylo unwaith yr wythnos o 1 Mai 2010, yn hytrach na thair gwaith yr wythnos, gyda 10 sesiwn arsylwi. Cyflwyno'r archwiliadau hylendid dwylo ar y coridor sy'n cysylltu'r wardiau er mwyn i'r ymwelwyr a'r staff i gyd allu eu gweld.</p>	<p>Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau Uwch Nyrsys /Prif Nyrsys</p>	<p>1 Mai 10 1 Gorffennaf 10</p>
8.	<p><i>Roedd diffyg arwyddion yn annog y defnydd o gel alcohol o amgylch y ward. Dylid gwneud mwy o ymdrech i godi ymwybyddiaeth o hylendid dwylo ymhlith y staff, cleifion ac ymwelwyr a dylid gosod posterï priodol o amgylch</i></p>	<p>Cyflwyno'r arwyddion gel alcohol a ddyluniwyd fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid Gofal trwy'r holl wardiau llawfeddygol a meddygol aciwt. Y Tîm Rheoli Heintiau i gael gafael ar y posterï newydd ar gyfer hylendid dwylo a sicrhau y cânt eu harddangos trwy holl safleoedd yr ysbyty.</p>	<p>RT Uwch Nyrsys/Prif Nyrsys Tîm Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>1 Gorffennaf 10 1 Gorffennaf 10</p>

	<i>y ward.</i>			
9.	<i>Defnyddir cyfrwng rhyddhau clorin i lanhau gwaed neu hylifau'r corff sydd wedi gollwng. Roedd yr aelodau staff y siaradwyd â hwy yn gwybod yn union pa wanhad o'r toddiant oedd ei angen. Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i doddiant a oedd wedi'i dywallt i gynhwysydd cyffredinol gyda label arno a wnaed â llaw heb ddyddiad wedi'i nodi arno.</i>	Sicrhau bod labeli wedi'u hargraffu ar gael yn y wardiau, a'u bod yn cynnwys adran i nodi'r dyddiad pryd y cafodd y toddiant ei wanhau. (Dechreuwyd defnyddio'r rhain yn yr Uned Feddygol Acíwt ar 25 Mawrth).	Prif Nyrs J	25 Mawrth 10

Ward 19 Meddygaeth Anadlol

	Maes i'w Wella	Camau Gweithredu Cwm Taf	Swyddog Arweiniol sy'n Gyfrifol	Monitro a Dyddiad Cwblhau
	<u>Amgylchedd</u>			
1.	<i>Roedd llawer o'r seddau i gleifion ac ymwelwyr ar y ward wedi rhwygo'n wael.</i>	Cwblhawyd archwiliad o seddau cleifion, ystolion a seddau ymwelwyr ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl ym mis Rhagfyr 2009. Cwblhawyd treialon ar y seddau yn ystod misoedd	Uwch Nyrsys Uwch Nyrsys a rhanddeiliaid allweddol	Rhagfyr 2009 Ion Chwef 10

		<p>Chwefror a Mawrth 2010. Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2010. Bwrw ymlaen â'r rhaglen i brynu seddau newydd ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Cyflwyno safon ar gyfer glanhau ac archwilio seddau/ystolion cleifion/ymwelwyr o'r rhaglen Trawsnewid Gofal.</p>	<p>Uwch Nyrs Cyfarwyddwr Nyrsio RT/Prif Nyrsys y ward</p>	<p>Ebrill 10 1 Mehefin 10 1 Mehefin 10</p>
2.	<p><i>Roedd y baddon yn cael ei ddefnyddio i gadw eitemau amhriodol megis matresi aer a sedd doiled uchel.</i></p>	<p>Bwrw ymlaen â'r cynllun i newid yr ystafell ymolchi hon yn storfa. Symud yr holl fatresi aer nad ydynt yn cael eu defnyddio, a'r cyfarpar arall nad yw'n cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd, i'r llyfrgell gyfarpar ar 13 Mai.</p>	<p>Prif Nyrs ZG/NW Prif Nyrs ZG</p>	<p>1 Gorffennaf 10 10 Mai 10</p>
3.	<p><i>Roedd yr ystafell glinigol yn cael ei defnyddio ar gyfer sawl diben, gan gynnwys ystafell i'r staff. Roedd eitemau amhriodol yn cael eu cadw yn yr ystafell megis tegell a microdon.</i></p>	<p>Gwneud trefniadau priodol i'r staff gael microdon ar gyfer paratoi bwyd oddi ar y ward, a'u cefnogi i gymryd eu seibiant coffi oddi ar y ward. Cael gwared ar bob eitem amhriodol o'r ystafell y cyfeiriwyd ati. Darparu loceri ar gyfer staff ym mhen gogleddol a deheuol Ysbyty Brenhinol Morgannwg er mwyn sicrhau bod rhai ar gael ar gyfer y staff ym mhob ward.</p>	<p>RH Prif Nyrs ZG Mr RH</p>	<p>1 Mehefin 10 1 Mehefin 10 1 Gorffennaf 10</p>
4.	<p><i>Roedd nifer o ddalwyr poteli wrinal yn hongian o gynhwysydd eitemau miniog.</i></p>	<p>Symud yr eitemau ar unwaith a'u cadw'n briodol wrth ymyl gwelyau'r cleifion.</p>	<p>Prif Nyrs ZG</p>	<p>25 Mai 10</p>
5.	<p><i>Wrth archwilio, canfuwyd comedau nad oeddent wedi'u glanhau i safon dderbyniol. Rhoddir tâp o amgylch y comedau i ddangos eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio ond nid oedd y dull hwn yn cael</i></p>	<p>Mae "Safon Glanhau Comodau" y rhaglen Trawsnewid Gofal yn cael ei chyflwyno trwy'r holl wardiau meddygol a llawfeddygol. Atgoffa'r staff i lofnodi a rhoi'r dyddiad ar y tâp verna-care gwyrdd. Archwiliadau amgylcheddol o'r ward i gynnwys asesiad o safonau glanweithdra comedau.</p>	<p>BT Prif Nyrsys RH/Uwch Nyrsys</p>	<p>1 Mehefin 10 1 Mehefin 10 1 Mai 10</p>

	<i>ei ddefnyddio'n gyson.</i>			
6.	<i>Canfuwyd eitemau ymolchi cymunedol ar y ward. Dylid cael gwared ar y rhain oherwydd y gallent gael eu halogi os cânt eu defnyddio gan nifer o gleifion.</i>	Symud yr eitemau ar unwaith ac atgoffa'r staff i ofyn i gleifion fynd â'u heitemau ymolchi adref, neu gael gwared â'r holl eitemau ymolchi y mae cleifion yn eu gadael ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Sicrhau bod pecynnau hylendid unigol ar gael ar gyfer pob claf ar y ward.	Prif Nyrs ZG Prif Nyrs ZG	25 Mawrth 10 1 Mai 10
7.	<i>Nid oedd cypwrddau cyffuriau yn yr ystafelloedd clinigol wedi'u cloi. Dylai aelodau staff sicrhau bod pob cwpwrdd sy'n cynnwys meddyginiaeth neu sylweddau peryglus yn cael ei gloi bob amser.</i>	Atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod pob cwpwrdd sy'n cynnwys meddyginiaeth neu sylweddau peryglus yn cael ei gloi bob amser. Prif nyrs y ward, arweinwyr y tîm y tu allan i oriau arferol ac uwch nyrsys i fonitro. Cynnal archwiliadau ar hap ym mis Mai 2010.	Prif Nyrs ZG Prif Nyrs G a'r tîm y tu allan i oriau arferol CE	24 Mawrth 10 Parhaus Cyn diwedd mis Mai 10
	<u>Trin a gwaredu dillad gwely a llieiniau, gwastraff ac eitemau miniog</u>			
1.	<i>Roedd y troli dillad gwely a llieiniau budron wedi'i leoli nesaf at y troli dillad gwely a llieiniau glân. Dylid gwahanu dillad gwely a llieiniau budron a glân yn briodol.</i>	Prif nyrsys y ward i atgoffa'r staff o'r safonau y dylid cydymffurfio â hwy o ran cadw dillad gwely a llieiniau budron ar wahân i'r rhai glân, a chael gwared â'r rhai budron yn y man priodol. Dylai'r troli dillad gwely a llieiniau budron fod yn wag bob amser, gyda sach lân ynddo, yn barod i'w ddefnyddio.	Prif Nyrsys	1 Mai ac yn barhaus
2.	<i>Canfuwyd bod nifer o'r biniau ar y ward yn rhydlyd a bod y peintwaith wedi'i ddifrodi arnynt.</i>	Datblygu rhaglen i gael biniau newydd trwy Ysbyty Brenhinol Morgannwg i gyd. Nodi unrhyw finiau rhydlyd yn ystod archwiliadau, cael gwared arnynt a chael rhai newydd yn eu lle. Cynnal ail archwiliad o'r holl finiau yn yr Ysbyty ym mis	RH CM, LR, RK	O 1 Mai 10 ac yn barhaus O 1 Mai 10 ac yn barhaus Cyn diwedd mis

		Mai 2010.		Mai 10
3.	<i>Gwelwyd bin ar gyfer gwastraff domestig wedi'i leinio â bag gwastraff clinigol. Dylid labelu pob bin yn eglur i ddangos pa fath o wastraff y dylid ei roi ynddo.</i>	Trefnu i gael cyflenwad o fagiau newydd ar unwaith sy'n briodol ar gyfer y biniau. Cyflwyno biniau o liwiau gwahanol fel rhan o'r rhaglen o ddarparu biniau newydd yn lle'r hen rai.	LR RH	1 Mai 10 Mai 2010 ac yn barhaus
	<u>Cyfarpar a storfeydd</u>			
1.	<i>Roedd llawr yr ystafell ymolchi wedi'i staenio'n wael. Dylid symud eitemau o'r ystafell hon fel y gellir ei glanhau'n effeithiol.</i>	Prynu cyfarpar newydd (nad yw'n rhydu) ar gyfer y ward i ddal silindrau ocsigen. Symud eitemau er mwyn glanhau llawr yr ystafell ymolchi.	Prif Nyrs ZG Prif Nyrs ZG	1 Gorffennaf 10 Parhaus
2.	<i>Canfuwyd bod y cyfarpar ar y ward yn llychlyd yn gyffredinol. Dylid sefydlu system lanhau gofnodedig ar draws y sefydliad sy'n ei gwneud yn eglur pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a phryd.</i>	Glanhau'r eitemau y cyfeiriwyd atynt ar unwaith. Prif nyrs y ward i ailgynllunio cyfres newydd o amserlenni glanhau er mwyn dynodi swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer aelodau staff penodol. Neilltuo ystafelloedd a chyfarpar ar gyfer yr aelodau staff a ddynodwyd. Symud cyfarpar o'r wardiau i lyfrgell gyfarpar benodedig ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg yr wythnos yn cychwyn 13 Mai 2010. Comisiynir llyfrgell gyfarpar Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod mis Gorffennaf /Awst 2010. Bydd cyfarpar nad oes mo'i angen o ddydd i ddydd yn cael ei lanhau a'i labelu, a rhoddir y dyddiad arno, cyn ei drosglwyddo i'w gadw yn y llyfrgell gyfarpar ganolog.	Prif Nyrs G Prif Nyrs G Prif Nyrsys Prif Nyrsys Prif Nyrsys	25 Mawrth 10 27 Mawrth 10 13 Mai 10 1 Awst 10 Parhaus

	<u>Gwybodaeth ac arferion gwaith y staff</u>			
1.	<i>Nid oedd y staff i gyd wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylai pob aelod o staff gael hyfforddiant/diweddariadau ar reoli heintiau bob blwyddyn, a dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.</i>	<p>Tîm Ward 19 i dderbyn hyfforddiant parhaus ar y ward gan y Tîm Rheoli Heintiau pan fydd achosion yn codi. Parhau i ddefnyddio'r ffeiliau adnoddau Achosion o Haint.</p> <p>Arbrofi gyda diwrnodau diweddarau hyfforddiant Gorfodol/Statudol a chynnwys hyfforddiant ar Reoli Heintiau.</p> <p>Grwpiau Atal a Rheoli Heintiau'r Gyfarwyddiaeth i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r hyfforddiant a'r cynlluniau.</p> <p>Parhau i roi cefnogaeth i'r staff i'w galluogi i fynychu sesiynau astudio Rheoli Heintiau (Lefel 2, staff y ward – diweddariad 1 awr unwaith bob 2 flynedd; sefydlwyd hyfforddiant Lefel 3 ar gyfer prif nyrsys y ward, sesiwn 2 awr).</p> <p>Defnyddio'r dangoswrdd nyrsio newydd i fonitro a rhoi gwybod pwy sy'n cwblhau a chydymffurfio â hyfforddiant rheoli heintiau.</p>	<p>Tîm Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Prif Nyrsys Prif Nyrsys/Tîm Corfforaethol/DG Uwch Nyrsys</p> <p>Prif Nyrsys</p> <p>Uwch Nyrsys, Prif Nyrsys</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Mehefin 10 Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>1 Gorffennaf 10</p>
2.	<i>Nid yw archwiliadau hylendid dwylo'n cael eu cynnal yn rheolaidd. Rhagfyr 2009 oedd dyddiad yr archwiliad diwethaf a gofnodwyd. Dylid cynnal archwiliadau hylendid dwylo bob wythnos. Dylai'r staff gymryd rhan yn y rhain a chael eu hysbysu am y canlyniadau fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir yn brydlon.</i>	<p>Roedd Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau Cwm Taf, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2010, yn cefnogi'r syniad o gynnal archwiliadau hylendid dwylo unwaith yr wythnos o 1 Mai 2010, yn hytrach na thair gwaith yr wythnos, gyda 10 sesiwn arsylwi bob tro.</p> <p>Cyflwyno'r archwiliadau hylendid dwylo ar y coridor sy'n cysylltu'r wardiau er mwyn i'r ymwelwyr a'r staff i gyd allu eu gweld.</p>	<p>Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Uwch Nyrsys /Prif Nyrsys</p>	<p>1 Mai 10</p> <p>1 Gorffennaf 10</p>